

PWYLLGOR CRAFFU LLE

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod Hybrid Eithriadol, 6 Ionawr, 2026.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn bresennol: Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby (Cadeirydd); Y Cynghorydd C. Iannucci-Williams (Is-gadeirydd); Y Cynghorwyr G.M. Ball, C.E.A. Champion, P. Drake, V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, J.M. Norman, E. Penn, I.A.N. Perry ac S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: M. Blackmore a D. Paskin (Cynrychiolwyr y Grŵp Gwaith Tenantiaid / Panel); O. Carroll (Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro); a'r Cynghorwyr A. Asbrey, G. Bruce, I.R. Buckley, L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), S. Campbell, G.D.D. Carroll, J.E. Charles, C.P. Franks, S.J. Haines, S.M. Hanks, W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), Dr. I.J. Johnson, S.D. Perkes (Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus a Chynnwys Tenantiaid), S. Sivagnanam (Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan y Cynghorydd C. Stallard a K. Mitchell (Gweithgor Tenantiaid / Cynrychiolydd Panel).

EITEM AGENDA 2. COFNODION–

ARGYMHELLWYD – Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd, 2025 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cadeirydd, y Cynghorydd S. Lloyd-Selby, fuddiant personol, ond nid rhagfarnllyd, mewn perthynas ag Eitem 4 ar yr Agenda – Cynllun Datblygu Lleol (RLDP) Amnewid Adneuo Bro Morganwg 2021-2036, Cytundeb Cyflawni Diwygiedig a Strategaeth Seilwaith Gwyrdd. Natur ei buddiant oedd ei bod yn aelod annibynnol o Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro a oedd wedi bod yn rhan o'r broses hon fel ymgynghorai statudol. Gan mai buddiant personol yn unig oedd hwn, arhosodd y Cadeirydd yn y cyfarfod pan drafodwyd yr eitem ar yr agenda.

EITEM AGENDA 4. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL (CDLL) AMNEWID ADNEUO BRO MORGANWG 2021-2036, CYTUNDEB CYFLAWNI DIWYGIEDIG A STRATEGAETH SEILWAITH GWYRDD (CYF) –

Pleidleisiwyd ar yr argymhelliad isod gan y Pwyllgor, yn dilyn ei graffu a'i drafodaethau ar y cyfeiriad a'r adroddiad. Yn dilyn cais gan Aelod o'r Pwyllgor am Bleidlais Gofnodedig ar yr argymhelliad hwn, cynhaliwyd y bleidlais fel a ganlyn:

Cynghorydd	O Blaid	Yn Erbyn	Ymatal
G.M. Ball	√		
C.E.A. Champion			√
P. Drake	√		
V.P. Driscoll		√	
A.M. Ernest		√	
M.J. Hooper		√	
C. Iannucci-Williams	√		
S. Lloyd-Selby	√		
J.M. Norman	√		
E. Penn	√		
I.A.N. Perry		√	
S.T. Wiliam		√	
CYFANSWM	6	5	1

Felly, pasiwyd y bleidlais, a'r argymhelliad, a argymhellodd y canlynol:

ARGYMHELLWYD – BOD y Pwyllgor yn cytuno ac yn cymeradwyo'r Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Adneuo a'r dogfennau ategol, gan gynnwys y Strategaeth Seilwaith Gwyrdd ddrafft a'r Canllawiau Cynllunio Atodol Creu Lleodedd lach drafft sy'n cael eu cyfeirio at ymgynghoriad cyhoeddus.

Rheswm dros yr argymhelliad

Er mwyn galluogi ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Adneuo yn unol â Rheoliad 17 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd) ac, oherwydd nad oes unrhyw sylwadau na argymhellion i'w cyfeirio at y Cabinet, er mwyn galluogi cyfeirio'r adroddiad at y Cyngor Llawn (12 Ionawr, 2026) i'w ystyried a'i gymeradwyo.

EITEM AGENDA 5. CYNIGION CYLLIDEB CYFRIF REFENIW TAI (HRA) TERFYNOL 2026/27, GOSOD RHENT 2026/27 A CHYNLLUN BUSNES CYFRIF REFENIW TAI 2026/27 (AG/BA) –

ARGYMHELLWYD – BOD, o ran Argymhelliad (3) yr adroddiad (bod y Cabinet yn argymhell i'r Cyngor ei fod yn cymeradwyo cynnydd rhent cyfartalog o 4.3%), gofynnodd y Pwyllgor i'r adroddiad egluro'r meini prawf fforddiadwyedd a osodwyd ynddo, mewn perthynas â'r cynnydd rhent arfaethedig ac y dylai'r wybodaeth gynnwys manylion am lefelau cynnydd rhent cyfartalog a osodwyd gan bartneriaid

Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL) er mwyn egluro ymhellach y rhesymeg dros y penderfyniadau ynghylch lefel y cynnydd rhent a gynigiwyd gan Gyngor Bro Morganwg.

Rheswm dros yr argymhelliad

Er mwyn i'r Cabinet a swyddogion perthnasol y Cyngor ystyried yr argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor ac i helpu i ddarparu eglurder ar y broses o wneud penderfyniadau ynghylch lefel y cynnydd rhent a gynigiwyd gan Gyngor Bro Morganwg.